

# Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau)

18 Ionawr 2018

### Y cefndir

1. Ar 7 Rhagfyr 2017, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau) gerbron Senedd y DU.
2. Ar 12 Rhagfyr 2017, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'w ystyried. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, pennodd y Pwyllgor Busnes 22 Chwefror 2018 fel terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad.
3. Mae dadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, yn gofyn i'r Cynulliad gydsynio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (fel y'u hamlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol), wedi'i threfnu ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar 22 Chwefror 2018.

### Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

4. Mae paragraffau 4 i 6 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 7 i 11 yn pennu'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraff 12 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau sy'n cael eu gwneud drwy Fil y DU i ymdrin â'r darpariaethau hyn.

### Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

#### Cymal 1 Ymosodiad Cyffredin a Churo.

5. Mae'r cymal hwn yn creu trosedd neillffordd newydd o ymosodiad neu guro a gyflawnir yn erbyn gweithiwr y gwasanaethau brys, gyda chosb uchaf wedi'i chynyddu pan geir treial ar dditiad.

#### Cymal 2 Ffactor Gwaethygu

6. Mae'r cymal hwn yn creu ffactor gwaethygol statudol ar ddeddfrydu yn achos rhestr o droseddau penodol a gyflawnir yn erbyn gweithiwr y gwasanaethau brys

wrth arfer ei swyddogaethau fel gweithiwr y gwasanaethau brys. Rhaid i statws gweithiwr y gwasanaethau brys gael ei ystyried gan y llys fel ffactor sy'n cynyddu difrifoldeb trosedd benodol ac, o ganlyniad felly, lymder y ddedfryd a roddir ar gyfer y drosedd honno

### Cymal 3 Ystyr 'gweithiwr gwasanaethau brys'

**7.** Mae'n diffinio gweithiwr y gwasanaethau brys at ddibenion cymalau 1 a 2 i gynnwys gweithwyr mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, yn ogystal â meysydd heb eu datganoli

#### *Gweithwyr mewn meysydd gwasanaeth sydd wedi'u datganoli*

- Gweithwyr y gwasanaeth tân
- Gweithwyr y gwasanaeth achub
- Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) (a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaeth iechyd y GIG) mewn swyddi sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd

#### *Gweithwyr mewn meysydd gwasanaeth sydd heb eu datganoli*

- Yr heddlu
- Swyddogion yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Swyddogion carchardai a'r ddalfa

### Cymal 4 - 6 Cymryd samplau

**8.** Mae'r cymalau hyn yn darparu fel bod modd cymryd samplau gan y rheini sydd wedi ymosod ar weithiwr y gwasanaethau brys, pan fo arolygydd yrheddlu yn ystyried bod sail resymol dros gredu bod y gweithiwr hwnnw wedi bod yn agored i risg o drosglwyddiad clefyd heintus (ee pan fo'r gweithiwr wedi cael ei gnoi, neu os bydd rhywun wedi poeri ar y gweithiwr). Eu diben, fel a nodwyd yn y Nodiadau Esboniadol, yw galluogi gweithwyr y gwasanaethau brys yr ymosodwyd arnynt i gael gwybod yn gyflym, a chyda chryn sicrwydd, a ydynt mewn perygl o ddal clefyd heintus fel bod modd iddynt (os oes perygl) gymryd y feddyginiaeth briodol i'w daclo ac osgoi heintio eu ffrindiau a'u teuluoedd; ac (os nad oes perygl) er mwyn osgoi peri iddynt unrhyw drallod neu ofid.

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

**9.** Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod hi'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU am resymau'n ymwneud ag amser a chydlynid. Mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd yn dda ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â diogelu gweithwyr y gwasanaethau brys. Bydd gweithredu yn hyn o beth yn y Bil y DU hwn yn golygu bod gweithwyr y gwasanaethau brys yn y gwasanaethau datganoledig yng Nghymru yn cael yr un lefel o amddiffyniad, ar yr un pryd, â'r rhai yn Lloegr.

## Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

**10.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2018. Nodwn resymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Cynulliad, ac, yn seiliedig ar y rhain, nid oes gennym wrthwynebiad i gytuno â'r Cynnig.